# CHWARAE GEMAU

## DEUNYDDIAU ATEGOL

Os oes angen cymorth pellach arnoch ar agweddau penodol ar ddysgu yn yr awyr agored, gall y deunyddiau hyn gyfoethogi'r profiadau sy'n ennyn diddordeb a ddarperir gennych. Gallant eich cefnogi wrth i chi ddylunio, cynllunio a gweithredu eich cwricwlwm. Mae dysgu yn yr awyr agored yn ffordd wych o ddatblygu sgiliau cyfannol dysgwyr (creadigrwydd ac arloesedd, meddwl yn feirniadol a datrys problemau, effeithiolrwydd personol, cynllunio a threfnu). Byddwch eisiau canolbwyntio ar pam mae dysgu o bwys a sicrhau eich bod yn diwallu anghenion eich dysgwyr.
Mae'r deunyddiau hyn yn dangos llwybr y gellid ei gymryd drwy'r gweithgaredd. Nid yw hyn i fod yn rhagnodol. Dylech addasu eich dull, yn dibynnu ar anghenion a diddordebau eich dysgwyr a'ch ardal leol.

### TROSOLWG

Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu Mae dysgwyr yn ystyried yr hyn maen nhw'n ei wybod yn barod am chwarae gemau, trafod eu hoff gemau ac archwilio'r rhesymau rydyn ni'n chwarae gemau a beth yw'r manteision. Cânt eu cyflwyno i gêm fwrdd o Nigeria, gan ystyried y rheolau a chwarae'r gêm hon yn erbyn ei gilydd.

Mae dysgwyr yn ystyried gêm fwrdd Gymreig a gyflwynwyd i Ynysoedd Prydain gan y Llychlynwyr. Maent yn gwneud ymchwil i ddarganfod mwy am y gêm, yn gwneud bwrdd a darnau er mwyn ceisio ei chwarae'r, gan ddilyn set o reolau a gyflwynir fel ffynhonnell hanesyddol. Bydd y dysgwyr yn ysgrifennu set o gyfarwyddiadau ar gyfer chwarae'r gêm, yn cymharu'r rhain â rheolau'r gêm go iawn ac yn archwilio gemau 'strategaeth haniaethol' eraill. Maent yn dyfeisio ac yn chwarae eu gêm strategaeth haniaethol eu hunain, gan werthuso'r gêm a myfyrio ar y broses o'i datblygu. Yn olaf, mae'r dysgwyr yn creu hysbyseb i hyrwyddo eu gêm ac yn ystyried adborth gan eu cyfoedion.

## CWRICWLWM I GYMRU

**Meysydd dan sylw:**

- Y Celfyddydau Mynegiannol
- Y Dyniaethau
- Ieithoedd, Llythrennedd a Chyfathrebu

Mae'r gweithgaredd hefyd yn ymgorffori agweddau ar sgiliau trawsgwricwlaidd a amlinellir yn y FfLlRh a'r FfCD.

## ADNODDAU

Dyfais y gellir ei defnyddio i gysylltu â'r rhyngrwyd a mynediad i'r rhyngrwyd.
Mynediad at ddefnyddiau y gellid eu defnyddio fel cownteri, e.e. brigau, cerrig bychain, mes, ac ati.
Mynediad at ddefnyddiau y gellid eu defnyddio i dynnu llun y bwrdd chwarae, e.e. ffon, carreg finiog, ac ati.
Dulliau o recordio a golygu fideo (e.e. ffôn clyfar, tabled, camera).

## GWNEUD Y GWEITHGAREDD

- Yn y rhan fwyaf o dasgau, bydd gofyn i ddysgwyr weithio mewn parau neu grwpiau.
- Anogwch y dysgwyr i rannu eu syniadau ac egluro a chyfiawnhau eu syniadau pan fo modd, mewn ymateb i gwestiynu agored. Mae cwestiynau ffocws wedi'u hawgrymu ar gyfer arwain dysgwyr drwy'r tasgau.
- Wrth fynd â dysgwyr i'r awyr agored, mae'n hanfodol cadw at y Cod Cefn Gwlad a bod unrhyw asesiadau risg perthnasol wedi'u cynnal a bod y risgiau wedi'u lliniaru.

TASG 1

# BETH YW MANTEISION CHWARAE GEMAU?

Eglurwch wrth y dysgwyr y dylai'r dasg hon eu helpu i archwilio a dod i ddeall eu profiadau a'u syniadau ynghylch chwarae gemau.

## Sgrîn 3

Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried beth maen nhw'n meddwl yw ystyr 'chwarae gemau' trwy drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pwy sy'n chwarae gemau? Pam ydych chi'n meddwl hynny?
- Pryd a ble mae pobl yn chwarae gemau?
- Pa mor bwysig yw chwarae gemau? Pam ydych chi'n meddwl hynny?

## Sgrîn 4

Er mwyn ysgogi gwybodaeth, profiad a dealltwriaeth flaenorol, gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw eich hoff gemau?
- Pam ydych chi'n mwynhau'r gemau hyn?
- A oes unrhyw rannau o chwarae gemau nad ydych chi'n eu mwynhau? Pam?
- Beth yw'r manteision y byddech chi'n ei gael o chwarae gemau?
- Pa sgiliau ydych chi wedi'u dysgu wrth chwarae gemau?
- Sut mae'r sgiliau hyn wedi bod yn ddefnyddiol i chi yn eich hysgol neu fywyd bob dydd?
- Allwch chi gofio gêm roeddech chi'n arfer ei mwynhau, ond heb ei chwarae ers amser maith? Pam nad ydych chi wedi ei chwarae ers amser maith?

## Sgrîn 5

Dywedwch wrth y dysgwyr y gellir categoreiddio gemau mewn gwahanol ffyrdd. Gofynnwch iddyn nhw gwblhau'r tabl drwy nodi eu hoff gêm ym mhob categori.

Eglurwch wrth y dysgwyr y gall rhai gemau berthyn i sawl categori. Gwahoddwch nhw i rannu eu dewisiadau a'u rhesymau dros y dewisiadau hynny gyda phartner. Yna, gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- A wnaethoch chi ddewis yr un pethau?
- A oedd gennych chi resymau tebyg? Os felly, beth oedden nhw?

### Sgrîn 6

Gofynnwch i'r dysgwyr ystyried pam rydyn ni'n chwarae gemau trwy glicio ar bob cymeriad a thrafod eu barn wrth iddyn nhw ymddangos ar y sgrîn.

**Cwestiynau ffocws**

- Sylwadau pa un o'r dysgwyr hyn ydych chi'n cytuno fwyaf â nhw? Pam?
- Sylwadau pwy ydych chi'n cytuno leiaf â nhw? Pam?

### Sgrîn 7

Gwahoddwch y dysgwyr i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw'r prif resymau dros chwarae gemau? (Ceisiwch beidio â meddwl am gemau ar-lein yn unig!)
- A wnaethoch chi a'ch partner gytuno? Os na, sut oedd eich syniadau yn wahanol?

### Sgrîn 8

Gwahoddwch y dysgwyr i ystyried pam mae chwarae gemau yn bwysig iddyn nhw ac i grynhoi'r rhesymau pam maen nhw'n bwysig trwy gwblhau'r frawddeg ganlynol ar y sgrîn:
'Mae chwarae gemau yn bwysig i mi oherwydd...'

TASG 2

## DYSGU A CHWARAE GEMAU NEWYDD

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddant yn archwilio ac yn chwarae hen gemau bwrdd sy'n debygol o fod yn newydd iddynt, yn y dasg hon.

### Sgrîn 3

Ar y sgrîn hon, cyflwynir y dysgwyr i gêm o Nigeria o'r enw 'Dara' ac fe'i gwahoddir nhw i dynnu llun y bwrdd gêm a chasglu cownteri ar gyfer chwarae'r gêm.

### Sgrîn 4

Rhoddir amlinelliad o reolau Dara ar y sgrîn hon. Gofynnwch i'r dysgwyr ddarllen a thrafod y rheolau ac yna dylech fynd trwy'r rheolau gyda'r dysgwyr, er mwyn sicrhau eu bod yn deall sut i chwarae'r gêm. Efallai y byddwch am ddangos yn gryno sut i chwarae'r gêm, er enghraifft, ar fwrdd gwyn.

## Sgrîn 5

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i chwarae Dara yn erbyn tîm arall. Gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol gyda gweddill eu tîm.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble byddwch chi'n rhoi eich cownteri ar y dechrau? Pam?
- Beth fydd eich strategaethau? Pam?

## Sgrîn 6

Ewch â'r dysgwyr allan i'r awyr agored a'u gwahodd i chwarae gêm o Dara.

## Sgrîn 7

Ar ôl i'r dysgwyr chwarae gêm o Dara, gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol gyda'u tîm.

**Cwestiynau ffocws**

- Pe byddech chi'n chwarae'r gêm eto, beth fyddech chi'n ei wneud yn wahanol? Pam? Sut byddai hynny'n gwella'r canlyniad?
- Beth wnaethoch chi ei fwynhau am chwarae'r gêm? Sut deimlad oedd chwarae'r gêm?
- Beth hoffech chi ei newid am y gêm, er mwyn eich galluogi chi i'w mwynhau'n fwy?

## Sgrîn 8

Ar y sgrîn hon, cyflwynir y dysgwyr i 'Tawlbwrdd', sef gêm Gymreig a gyflwynwyd i Ynysoedd Prydain gan y Llychlynwyr. Gofynnwch i'r dysgwyr edrych ar y ddelwedd o fwrdd tawlbwrdd, gyda'r darnau wedi eu gosod arno. Gofynnwch i'r dysgwyr drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth mae'r bwrdd a'r darnau chwarae yn eich atgoffa ohono?
- Pa gemau eraill ydych chi wedi'u gweld sy'n edrych yn debyg i hyn?

## Sgrîn 9

Dywedwch wrth y dysgwyr bod y Brenin Hywel Dda wedi teyrnasu yn y 10fed Ganrif, a'i fod wedi rhoi gêm o'r enw tawlbwrdd i swyddogion uchel eu statws, yn anrheg. Gwahoddwch y dysgwyr i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth ydych chi'n ei wybod am y Brenin Hywel Dda?
- O beth fyddai tawlbwrdd yn cael ei wneud yn y 10fed ganrif, yn eich barn chi? Pam?

## Sgrîn 10

Gofynnwch i'r dysgwyr ymchwilio ar y rhyngrwyd er mwyn dod o hyd i atebion i'r cwestiynau hyn am y Brenin Hywel Dda:

- Beth oedd ei enw iawn?
- Rhwng pa flynyddoedd roedd e'n byw?
- Sut daeth yn Frenin ar Gymru?
- Pa gysylltiadau oedd ganddo â Gŵyr?
- Pa ardaloedd o Gymru oedd ganddo ddim rheolaeth drostynt pan roedd yn Frenin ar Gymru? Pam?

## Sgrîn 11

Gwahoddwch y dysgwyr i ddarllen y ffynhonnell hanesyddol a ddarperir ar y sgrîn hon, gan ddangos y disgrifiad Cymraeg gwreiddiol o tawlbwrdd.

## Sgrîn 12

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod am wneud eu bwrdd tawlbwrdd a'u darnau chwarae eu hunain. Yna byddant yn defnyddio'r ffynhonnell hanesyddol o'r sgrîn flaenorol (11) i chwarae'r gêm.

Rhowch gardbord, sisyrnau, pinnau ysgrifennu (ffelt) a phren mesur i'r dysgwyr. Gofynnwch i'r dysgwyr, yn eu parau, benderfynu sut y byddan nhw'n gwneud eu bwrdd a'r darnau ar gyfer chwarae tawlbwrdd, gan drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut y byddwch chi'n gwneud y bwrdd? Pa fesuriadau fyddwch chi'n eu defnyddio? Pam?
- Beth fydd maint pob darn? Pam?
- Faint o ddarnau fyddwch chi'n eu gwneud?
- Sawl darn o bob lliw fyddwch chi'n eu gwneud?

## Sgrîn 13

Gwahoddwch y dysgwyr i ddefnyddio'r ffynhonnell hanesyddol i geisio chwarae tawlbwrdd. Gofynnwch iddynt wneud nodyn o unrhyw rannau o'r gêm y bu'n rhaid iddynt eu dyfeisio eu hunain, er mwyn gwneud gwell synnwyr o'r ffynhonnell, a gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa rannau o'r gêm oedd yn glir yn y ffynhonnell?
- Pa rannau o'r gêm oedd ddim yn glir? Pam?
- Beth wnaethoch chi ei ychwanegu at y cyfarwyddiadau yn y ffynhonnell, er mwyn i chi allu chwarae'r gêm?

## Sgrîn 14

Gwahoddwch barau o ddysgwyr i ysgrifennu set o gyfarwyddiadau ar gyfer chwarae eu fersiwn nhw o dawlbwrdd. Gofynnwch i bob pâr rannu eu bwrdd a'u cyfarwyddiadau gyda phâr arall o ddysgwyr ac yna gwahodd y dysgwyr hyn i gael gêm o dawlbwrdd. Dylai pob pâr sy'n chwarae'r chwarae'r gêm roi adborth i'r pâr a ysgrifennodd y cyfarwyddiadau, trwy drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa mor hawdd oedd dilyn y cyfarwyddiadau?
- Beth ellid ei ychwanegu at y cyfarwyddiadau er mwyn eu gwneud yn gliriach? Sut byddai'r ychwanegiadau hyn yn helpu?

## Sgrîn 15

Ar y sgrîn hon, darperir rheolau tawlbwrdd i'r dysgwyr. Gwahoddwch nhw i edrych ar y rheolau ac i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa mor debyg yw'r rheolau hyn i'ch rhai chi?
- Beth sy'n wahanol rhwng y ddwy set o reolau?

## Sgrîn 16

Nawr, gwahoddwch y dysgwyr i geisio chwarae tawlbwrdd gan ddefnyddio'r rheolau cywir, gan drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa mor hawdd oedd hi i chwarae gan ddefnyddio'r rheolau hyn? Pam?
- Faint wnaethoch chi fwynhau chwarae tawlbwrdd? Pam?
- Pa gêm(au) eraill mae tawlbwrdd yn eich atgoffa chi ohonynt? Pam?

## Sgrîn 17

Rhowch wybod i'r dysgwr fod gemau Tafl, a elwir hefyd yn gemau hnefatafl, yn deulu o gemau strategaeth hynafol o Ogledd Ewrop, a chwareir ar fwrdd. Chwareir y gemau hyn gan ddwy fyddin anwastad ar fwrdd gêm sgwarog neu ddelltog. Mae tawlbwrdd yn un o gemau'r teulu yma.

Ers 2011, mae Ffederasiwn Tafl y Byd wedi bod yn cynnal pencampwriaethau hnefatafl y byd yn flynyddol.

## Sgrîn 18

Dywedwch wrth y dysgwyr fod Tawlbwrdd a Dara yn cael eu hadnabod fel gemau 'strategaeth haniaethol'. Gofynnwch iddyn nhw ystyried yr ymadrodd hwn a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw ystyr 'strategaeth haniaethol', yn eich barn chi?
- Pa gemau eraill ydych chi'n gwybod amdanynt, sy'n gemau strategaeth haniaethol?
- Pa gemau strategaeth haniaethol ydych chi wedi'u chwarae?
- Beth yw eich hoff gêm strategaeth haniaethol? Pam?

TASG 3

# DYFEISIO EIN GÊM STRATEGAETH HANIAETHOL EIN HUNAIN

Eglurwch wrth y dysgwyr y byddan nhw'n archwilio sut i ddylunio a gwneud gêm strategaeth haniaethol ac ystyried adborth gan gymheiriaid, yn y dasg hon.

## Sgrîn 3

Eglurwch wrth y dysgwyr eu bod nhw, mewn grwpiau, am ddyfeisio gêm strategaeth haniaethol y gellir ei chwarae yn yr awyr agored, gan ddefnyddio pobl yn eu dosbarth fel y darnau chwarae. Dywedwch wrthynt y byddan nhw'n gallu defnyddio unrhyw ddefnyddiau naturiol sydd yn yr ardal maen nhw'n chwarae ynddi fel arfer, ar gyfer marcio'r bwrdd neu greu'r darnau.

Er enghraifft:

- gellid marcio'r bwrdd yn y tywod
- efallai y bydd coron y frenhines wedi'i gwneud o ffyn
- gallai rhai o'ch darnau gario cerrig fel 'arfau', er mwyn dangos eu bod yn filwyr.

## Sgrîn 4

Gwahoddwch y dysgwyr i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Ble bydd eich gêm yn cael ei chwarae?
- Pa ddefnyddiau naturiol fydd ar gael i'w defnyddio?
- Sut byddwch chi'n marcio'r bwrdd? Pam ei farcio fel hyn?

Gwahoddwch y dysgwyr i ddechrau map meddwl i ddangos eu syniadau.

## Sgrîn 5

Gofynnwch i'r dysgwyr wneud penderfyniadau ynghylch eu gêm fwrdd a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Sut beth fydd y bwrdd ar gyfer eich gêm? Pam?
- Sut mae'r bwrdd am gael ei drefnu? Pam?
- Beth fydd maint eich bwrdd? Pam?
- Os oes gennych chi adrannau ar eich bwrdd, pa mor fawr ddylai pob adran fod? Pam?
- Pa ddarnau sydd eu hangen ar gyfer chwarae eich gêm? Sut byddwch chi'n dynodi'r darnau?
- Pa ddefnyddiau naturiol neu offer arall fydd eu hangen ar gyfer chwarae'r gêm?

Gwahoddwch y dysgwyr i ychwanegu eu syniadau at eu map meddwl.

## Sgrîn 6

Gofynnwch i'r dysgwyr wneud penderfyniadau ynghylch eu gêm fwrdd a thrafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth yw'r rheolau ar gyfer chwarae'r gêm?
- Faint o chwaraewyr allai chwarae'r gêm?
- Pa strategaethau fydd eu hangen ar chwaraewr er mwyn ennill y gêm?

Gwahoddwch y dysgwyr i ychwanegu eu syniadau at eu map meddwl.

## Sgrîn 7

Gofynnwch i'r dysgwyr ddefnyddio'r syniadau sydd ganddynt yn eu map meddwl i dynnu llun y bwrdd a'r darnau ac i ddrafftio set o reolau ar gyfer chwarae eu gêm.

## Sgrîn 8

Gofynnwch i'r dysgwyr fynd allan i'r awyr agored i chwarae eu gêm.

## Sgrîn 9

Eglurwch wrth y dysgwyr fod angen i bob grŵp werthuso eu gêm nawr, sef y bwrdd, y darnau a'r rheolau. Gofynnwch iddynt drafod y cwestiynau canlynol a gwneud unrhyw addasiadau i'w gêm, er mwyn ei gwella.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa mor dda wnaeth y gêm weithio? Pam?
- Beth ellid ei wneud i wella'r gêm, o ran:
    - y bwrdd
    - y darnau
    - y rheolau?

## Sgrîn 10

Ar y sgrîn hon, rhoddir cyfle i'r dysgwyr ddefnyddio tri neu fwy o'r ymadroddion a ddarperir ar gyfer dechrau brawddegau, pan yn myfyrio ar greu eu gêm.

Y wybodaeth a'r sgiliau allweddol a ddefnyddiwyd gennym i greu ein gêm oedd...; Roeddwn i'n arfer meddwl... Nawr, rwy'n meddwl...; Y tro nesaf, gallwn ni...; Fe wnaethon ni chwarae rolau gwahanol yn ein grŵp pan... ; Fe wnaethon ni ddatrys problemau pan...; Y peth mwyaf anodd i ni oedd...; Roedd yn rhaid i ni feddwl yn greadigol wrth ail-ystyried a datrys problemau pan...; Rydyn ni'n gobeithio y bydd pobl eraill yn elwa o'n gêm trwy...; Rhywbeth dwi'n dal ddim yn ei ddeall ydy....

## Sgrîn 11

Dywedwch wrth y dysgwyr eu bod yn mynd i greu hysbyseb byr er mwyn hyrwyddo eu gêm. Gall yr hysbyseb fod ar ffurf fideo, recordiad sain, poster neu hyd yn oed yn berfformiad byw. Gofynnwch iddyn nhw drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Pa fformat ddylem ni ei ddefnyddio ar gyfer ein hysbyseb?
- Pwy yw'r gynulleidfa ar gyfer ein hysbyseb?
- Beth sydd angen i ni ei gynnwys yn ein hysbyseb? Pam?
- Sut gallwn ni wneud ein hysbyseb, fel ei fod yn cydio yn y gynulleidfa?

## Sgrîn 12

Gofynnwch i'r dysgwyr greu eu hysbyseb a'i ddangos i'r dosbarth. Gwahoddwch y dosbarth i roi adborth ar ba mor dda oedd yr hysbyseb yn arddangos eu gêm, i ba raddau roedd y dosbarth ym ymgysylltu â'r hysbyseb, ac a oedd yr hysbyseb yn gwneud iddynt fod eisiau chwarae'r gêm, a pham.

## Sgrîn 13

Gwahoddwch y dysgwyr i ystyried yr adborth gan y dosbarth ac i drafod y cwestiynau canlynol.

**Cwestiynau ffocws**

- Beth oedd yn dda am eich hysbyseb?
- Beth oedd ddim mor dda am eich hysbyseb?
- Sut y gallech chi newid eich hysbyseb er mwyn gwneud i eraill fod yn fwy parod i chwarae eich gêm?